

## TRETH Y CYNGOR – CARTREFI SY’N CAEL EU HEITHRIO

Mae'r rhestr isod yn dangos y dosbarthiadau o gartrefi lle nad oes angen talu Treth y Cyngor.

DOSBARTH	DISGRIFIAD
<b>A</b>	<p><b>Bydd cartref gwag yn cael ei eithrio am gyfanswm o 12 mis fan bellaf yn unig, os yw'n wag ac</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- angen ei drwsio i'w wneud yn addas i fyw ynddo neu lle mae gwaith o'r fath ar y gweill, neu bod yr adeilad yn cael ei addasu, neu</li> <li>- lle cafodd gwaith atgyweirio mawr ei wneud i'w wneud yn lle addas i fyw ynddo neu waith addasu i'r adeilad, a bod llai na chwe mis wedi mynd heibio ers y dyddiad y cafodd y gwaith ei orffen i raddau helaeth, a bod y cartref wedi aros yn wag ers y dyddiad hwnnw.</li> </ul>
<b>B</b>	<p><b>Cartref sy'n berchen i gorff a sefydlwyd at ddibenion elusennol yn unig sydd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- â neb yn byw ynddo, ac sydd wedi bod yn wag am gyfnod o lai na chwe mis ers i rywun fod yn byw yno, a bod y rhai olaf i fod yn byw yno wedi defnyddio'r lle i amcanion yr elusen.</li> <li>-</li> </ul>
<b>C</b>	<p><b>Cartref gwag a ddi-ddodrefn sydd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- wedi bod yn wag am gyfnod parhaol o lai na chwe mis</li> </ul>
<b>D</b>	<p><b>Cartref gwag a fyddai naill ai'n</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- brif gartref i unigolyn cymwys sydd yn y ddalfa (carchar, ayyb), neu</li> <li>- a oedd gynt yn brif gartref os bu'n absennol am resymau perthnasol am y cyfnod llawn ers i'r annedd beidio â bod yn unig neu'n brif gartref iddo/iddi ddiwethaf</li> </ul>
<b>E</b>	<p><b>Cartref gwag a oedd gynt yn unig neu brif gartref i unigolyn cymwys sydd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- â'i unig neu ei brif/phrif gartref rywle arall mewn ysbty, cartref gofal preswyl, cartref nyrsio, neu ysbty meddwl, ac</li> <li>- wedi bod yn absennol am resymau perthnasol am y cyfnod llawn ers i'r cartref beidio â bod yn unig neu'n brif gartref iddo/iddi ddiwethaf</li> </ul>
<b>F</b>	<p><b>Cartref gwag lle mae unigolyn mewn perthynas ag ef yn gymwys yn rhinwedd ei swyddogaeth fel cynrychiolydd personol, ac</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- nad oes profiant neu lythyrau gweinyddu wedi eu gwneud; neu</li> <li>- fod llai na chwe mis wedi mynd heibio ers y dyddiad y rhoddwyd profiant o'r fath</li> </ul>
<b>G</b>	<p><b>Cartref gwag</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- lle mae ei feddiannu wedi ei wahardd trwy gyfraith, neu sy'n cael ei gadw'n wag oherwydd camau sy'n cael eu cymryd dan bwerau a roddir trwy neu dan unrhyw Ddeddf Seneddol, gyda'r bwriad o wahardd ei feddiannu neu ei gaffael</li> </ul>
<b>H</b>	<p><b>Cartref gwag sy'n</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- cael ei gadw ar gyfer gweinidog unrhyw enwad crefyddol fel lle i fyw ynddo er mwyn cyflawni dyletswyddau ei swydd</li> </ul>
<b>I</b>	<p><b>Cartref gwag a oedd gynt yn unig neu yn brif gartref i unigolyn cymwys sydd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- â'i unig neu ei brif/phrif gartref mewn man arall (nid ysbty, cartref gofal preswyl, cartref nyrsio, cartref nyrsio meddwl neu hostel) er mwyn iddo/iddi dderbyn gofal personol sy'n rhaid ei gael oherwydd henaint, anabledd, gwaeledd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau yn y gorffennol neu'r presennol neu anhwylder meddwl yn y gorffennol neu'r presennol; ac</li> <li>- wedi bod yn absennol am resymau perthnasol am y cyfnod llawn ers i'r cartref beidio â bod yn gartref iddo/iddi ddiwethaf</li> </ul>

<b>J</b>	<p><b>Cartref gwag a oedd gynt yn unig neu yn brif gartref i unigolyn cymwys sydd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- â'i unig neu ei brif/phrif gartref mewn man arall er mwyn darparu, neu ddarparu'n well, ofal personol i un sydd angen gofal o'r fath oherwydd henaint, anabledd, gwaeledd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau yn y gorffennol neu'r presennol neu anhwylder meddwl yn y gorffennol neu'r presennol; ac</li> <li>- wedi bod yn absennol am resymau perthnasol am y cyfnod llawn ers i'r cartref beidio â bod yn gartref iddo/iddi ddiwethaf</li> </ul>
<b>K</b>	<p><b>Cartref gwag</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- A oedd ddiwethaf yn brif gartref i unigolyn cymwys ac</li> <li>- Y mae pob unigolyn cymwys mewn perthynas ag ef yn fyfyrwr a naill ai: <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) Wedi bod yn fyfyrwr trwy'r cyfnod llawn ers i'r un a oedd yn byw ynddo ddiwethaf roi'r gorau i fyw yn y cartref fel ei brif/phrif gartref, neu yn berchen i neu dan reolaeth corff elusennol</li> <li>(ii) Wedi dod yn fyfyrwr o fewn chwe wythnos i'r dyddiad yn is-baragraff (i)</li> </ul> </li> </ul>
<b>L</b>	<p><b>Cartref gwag lle mae morgaisai mewn meddiant dan y morgais.</b></p>
<b>M</b>	<p><b>Neuadd breswyl sy'n cael ei darparu yn bennaf fel llety i fyfyrwyr sydd naill ai</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Yn berchen i neu dan reolaeth sefydliad o fewn ystyr paragraff 5 o Atodlen 1 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, neu</li> <li>- Yn destun cytundeb sy'n caniatáu i sefydliad o'r fath enwebu'r mwyafrif o bobl sydd i fyw yn y llety hwnnw</li> </ul>
<b>N</b>	<p><b>1. Cartref lle mae naill ai</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- un neu fwy o bobl yn byw ynddo a phob un yn breswlydd cymwys, neu</li> <li>- lle mae un neu fwy o breswylwyr cymwys yn byw ynddo fel llety adeg tymor;</li> </ul> <p><b>2. At ddibenion paragraff (1)</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- mae "preswlydd cymwys" yn golygu myfyrwr neu unigolyn y mae Dosbarth C (Gadawyr Ysgol a Choleg) rheoliad 3(1) o Reoliadau Treth y Cyngor (Darpariaeth Ychwanegol o ran Diystyru at Ddibenion Disgownt) 1992 yn gymwys iddo</li> <li>- ystyrir fod cartref yn cael ei feddiannu fel llety adeg tymor yn ystod unrhyw wyliau lle mae'r preswlydd cymwys <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) yn dal buddiant rhyddfrait neu brydles yn yr eiddo neu drwydded i feddiannu'r cyfan neu unrhyw ran o'r cartref ac</li> <li>(ii) ei fod/bod cynt wedi defnyddio neu ei fod/bod yn bwriadu defnyddio'r cartref fel llety adeg tymor</li> </ul> </li> </ul>
<b>O</b>	<p><b>Cartref</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- sy'n berchen i'r Ysgrifennydd Gwladol tros Amddiffyn, a'i fod yn cael ei gadw fel llety i'r lluoedd arfog</li> </ul>
<b>P</b>	<p><b>1. Cartref lle</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- mae o leiaf un, a fyddai'n gorfod talu treth y cyngor oni bai am yr ethygl hwn, yn bodloni'r amod a nodir ym mharagraff (2)</li> </ul> <p><b>2. Yr amod a cyfeirir ato ym mharagraff (1) yw</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- fod gan yr unigolyn gysylltiad perthnasol o fewn ystyr Rhan 1 Deddf Lluoedd Arfog ar Ymweliad 1952 gyda chorff neu fintai o luoedd gwlad, y mae unrhyw ddarpariaeth yn y Rhan honno yn gymwys iddynt ar y diwrnod hwnnw</li> </ul>
<b>Q</b>	<p><b>Cartref gwag lle mae</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- unigolyn yn unigolyn cymwys yn rhinwedd ei swyddogaeth fel ymddiriedolydd mewn methdaliad dan Ddeddf Methdaliad 1914 neu Ddeddf Ansofedd 1986</li> </ul>
<b>R</b>	<p><b>Cartref a ffurfiwyd o lain carafán neu angorfa</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- lle nad oes carafán neu, fel sy'n briodol, gwch arni</li> </ul>
<b>S</b>	<p><b>Cartrefi lle mae pawb sy'n byw ynddynt dan 18 oed.</b></p>
<b>T</b>	<p><b>Ychwanegiadau gwag</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- cartrefi sy'n rhan o eiddo sy'n cynnwys cartref arall, neu sydd wedi eu lleoli o fewn libart cartref arall ac na ellir eu gosod ar wahân i'r cartref arall hwnnw; ac mae gan yr un a fyddai fel arall yn atebol ei h/unig neu brif gartref yn y cartref arall hwnnw</li> </ul>
<b>U</b>	<p><b>Cartref lle mae'r bobl sy'n byw ynddynt gyda nam meddyliol difrifol</b></p>
<b>V</b>	<p><b>Diplomyddion – pan mai'r cartref yw'r prif gartref yn y Deyrnas Unedig</b></p>
<b>W</b>	<p><b>Anecs Nain – efo perthynas sy'n ddibynnol yn byw yno</b></p>